SP Energy Networks

Strategaeth Flynyddol Ynni Cymunedol 2026-27



SP Energy Networks

Beth i'w ddisgwyl yn y Ddogfen Strategaeth hon

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu strategaeth SP Energy Networks ar gyfer cefnogi ynni cymunedol ac yn manylu ar ein hymrwymiadau allweddol.

Sefydlwyd ein tîm Ynni Cymunedol yn 2024, ac ers hynny, mae ein hymwneud ag ynni cymunedol a'n cefnogaeth tuag ato wedi tyfu'n gyson. Yn y strategaeth hon, rydyn ni'n amlinellu ein bwriad i gynnal y momentwm hwnnw drwy gyfuniad o fentrau mewnol ac allanol sy'n annog cydweithio, arloesi a gwelliant parhaus o ran y ffordd rydyn ni'n grymuso cymunedau i gyflawni eu nodau ynni.

Termau a ddefnyddir yn aml yn y ddogfen hon:

- **Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO):** Cwmni sydd wedi'i drwyddedu i ddosbarthu trydan ar draws ardal ddiffiniedig.
- **Gweithredwr y System Ddosbarthu (DSO):** Y DSO yw'r rhan o'r DNO sy'n gyfrifol am gynnal dibynadwyedd a galluogi adnoddau ynni hyblyg fel batris, cerbydau trydan ac ymateb ymhlith defnyddwyr. Mae'n esblygiad o rôl draddodiadol DNO, gyda mwy o bwyslais ar gydbwyso'r system a gwasanaethau hyblygrwydd.
- **ED2/ED3 – Rheoli Prisiau Dosbarthu Trydan:** Cyfnodau rheoleiddiol lle mae DNO yn pennu safonau buddsoddi a gwasanaeth ar gyfer cyfnodau pum mlynedd. ED2 (cyfredol): 2023–2028. ED3 (ar y gweill): 2028-2033.



Cwrdd â'r tîm

Mae gan **Louise Taylor**, Rheolwr Ymgysylltiad Ynni Cymunedol (SP Manweb), dros 20 mlynedd o brofiad yn ScottishPower, gyda'r degawd diwethaf yn canolbwyntio ar gysylltiadau. Mae hi'n gweithio ar y cyd â grwpiau ynni cymunedol a rhanddeiliaid i fynd i'r afael â rhwystrau ac i alluogi uchelgeisiau ynni lleol.



Ymunodd **Grace McGovern**, Rheolwr Ymgysylltiad Ynni Cymunedol (SP Distribution), ym mis Ionawr 2026 gyda chefndir cryf mewn ymgysylltu â'r gymuned, partneriaethau gydag awdurdodau lleol ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae Grace yn arwain ar feithrin perthnasoedd gyda sefydliadau ynni cymunedol, gan gynnwys GB Energy, i gysylltu blaenoriaethau lleol â chynllunio'r rhwydwaith.



Cynnwys



Rhagair	Tudalen 04
SP Energy Networks	Tudalen 05
Ynni Cymunedol	Tudalen 06
Cyflwr y sector	Tudalen 07
Blaenoriaethau strategol	Tudalen 08
Edrych yn ôl	Tudalen 12
Edrych ymlaen	Tudalen 16
Gwersi ac adlewyrchu	Tudalen 21
Adnoddau	Tudalen 24
Cysylltu	Tudalen 25
Geirfa	Tudalen 26
Atodiadau	Tudalen 27

Mae ynni cymunedol wedi cyrraedd moment dyngedfennol.

Wrth i ni gyhoeddi ein Strategaeth Ynni Cymunedol ar gyfer 2026, caiff ynni cymunedol ei gydnabod fwyfwy fel galluogwr strategol sy'n hwyluso'r trawsnewidiad ynni. Yn y gorffennol, byddai'n cael ei ystyried fel rhan ategol o'r system ynni, mae bellach yn chwarae rôl gynyddol wrth gysylltu uchelgeisiau lleol gydag amcanion cenedlaethol, ac wrth ddarparu buddion i gymunedau, lleoedd, y rhwydwaith ac, yn y pen draw, i'r holl gwsmeriaid.

Mae sefydliadau ynni yn chwarae rôl unigryw o fewn y tirlun ynni newidiol. Wedi'u gwreiddio yn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, maen nhw'n bartneriaid y gellir ymddiried ynddyn nhw sy'n dod â gwybodaeth leol, blaenoriaethau cymunedol a chamau gweithredu ymarferol at ei gilydd. Drwy gydweithio ochr yn ochr â gweithredwyr rhwydwaith, awdurdodau lleol, busnesau a thrigolion, gallan nhw helpu i gynnig atebion sy'n cefnogi datgarboneiddio, yn cryfhau gwydnwch lleol, yn datgloi gwerth cymdeithasol ac economaidd, ac yn gwneud i'r system ynni weithio'n well i bawb.

Mae eleni wedi bod yn arbennig o arwyddocaol oherwydd bod y tirlun polisi wedi esblygu er mwyn rhoi lle canolog i gymunedau o fewn y trawsnewidiad ynni. Mae lansio Cynllun Pŵer Lleol Great British Energy yn amlinellu uchelgais y dylai pob cymuned gael cyfle i gymryd rhan a chael budd o brosiectau ynni lleol erbyn 2030. Wedi'i gefnogi gan fuddsoddiad a chefnogaeth sylweddol, dyma'r ymrwymiad cryfaf hyd yma tuag at ynni cymunedol a lleol, ac mae'n atgyfnerthu'r rôl bwysig y gall cymunedau ei chwarae wrth greu dyfodol ynni glanach, tecach a mwy gwydn.

Yn SP Energy Networks, rydyn ni'n croesawu'r momentwm hwn. Fel yr unig weithredwr rhwydwaith sy'n gwasanaethu cymunedau ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban, rydyn ni'n gweld yn uniongyrchol yr uchelgais, yr arloesedd a'r ymrwymiad sy'n bodoli mewn trefi, pentrefi a dinasoedd ar draws ardaloedd ein trwydded. Rydyn ni hefyd yn gweld cyfle i sefydliadau ynni cymunedol weithredu fel partneriaid cyflawni, gan bontio'r bwlch rhwng anghenion sy'n seiliedig ar leoedd a blaenoriaethau'r rhwydwaith wrth helpu cymunedau i wireddu manteision y trawsnewidiad ynni.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi parhau i gryfhau'r sylfeini sy'n galluogi sefydliadau ynni cymunedol i lwyddo drwy'r ffyrdd canlynol:

- Creu tîm Ynni Cymunedol penodedig
- Darparu adnoddau Cymunedau Dim Carbon
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid
- Cyflwyno adnoddau addysgol, gweithdai a deunyddiau ar-lein
- Cydweithio'n agos gydag Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol Lloegr ac Ynni Cymunedol yr Alban.

Ar draws ardaloedd ein trwydded, mae sefydliadau ynni cymunedol yn cyflawni canlyniadau gweladwy yn barod. Maen nhw'n cynhyrchu trydan adnewyddadwy, yn cefnogi effeithlonrwydd ynni, yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, yn creu swyddi lleol medrus, yn gwella gwydnwch ac yn datblygu atebion sy'n cefnogi cymunedau a'r system ynni ehangach. Mae eu cyfraniad yn dangos bod ynni cymunedol yn fwy na phrosiectau ynni yn unig; mae'n ymwneud â chreu lleoedd cryfach a sicrhau bod buddion y trawsnewidiad yn cael eu rhannu'n ehangach.

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu sut byddwn yn parhau i feithrin y bartneriaeth hon. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad tuag at gydweithio â chymunedau a rhanddeiliaid i wireddu gwerth llawn ynni cymunedol. Drwy gefnogi ynni cymunedol fel partner strategol yn y trawsnewidiad, gallwn helpu i greu system ynni sy'n lanach, yn fwy gwydn ac yn fwy cynhwysol, tra'n rhoi buddion i gymunedau, y rhwydwaith a'r holl gwsmeriaid.

Hoffwn ddiolch i'r llu o grwpiau cymunedol, rhanddeiliaid, partneriaid a chydweithwyr sydd wedi parhau i herio, ysbrydoli a gweithio ochr yn ochr â ni. Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod ynni cymunedol yn chwarae rôl ganolog wrth gyflawni proses bontio deg ac wrth siapio dyfodol ynni cynaliadwy ar gyfer y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Nicola Connelly
Prif Swyddog Gweithredol,
SP Energy Networks



SP Energy Networks

Sut mae'n gweithio

Mae'r Strategaeth Ynni Cymunedol flynyddol hon yn un o'r ymrwymiadau a wnaed fel rhan o'r broses o Reoli Prisiau Dosbarthu Trydan 2 (ED2), sef fframwaith rheoleiddiol pum mlynedd Ofgem sy'n cwmpasu'r cyfnod 2023 i 2028. Mae ED2 yn nodi'r buddsoddiadau y byddwn yn eu gwneud a'r ymrwymiadau y byddwn yn eu cyflawni ar gyfer cwsmeriaid, cymunedau a'r system ynni ehangach.

Yn ein Cynllun Busnes ED2, fe wnaethom ymrwymo i gefnogi ynni cymunedol drwy'r ffyrdd canlynol:


- Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymorth lleol i gyflwyno ymgyrchoedd sy'n codi ymwybyddiaeth o ynni cymunedol a gweithgareddau allgymorth addysgol, gan helpu cymunedau i ddeall newidiadau o fewn y sector ynni ac i adnabod cyfleoedd i gymryd rhan ac i elwa ohonyn nhw.
- Gwreiddio'r ffordd o feddwl am ynni cymunedol ar draws ein busnes a chyhoeddi Strategaeth Ynni Cymunedol flynyddol sy'n amlinellu ein ffordd o gefnogi sefydliadau a phrosiectau cymunedol ar draws ardaloedd ein trwydded.
- Manteisio ar ein hadnoddau a'n harbenigedd i helpu grwpiau cymunedol i ddatblygu prosiectau sy'n cynnig buddion lleol a buddion ar draws y system gyfan.
- Gwneud ein ffordd o weithio yn destun adolygiad annibynnol, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddysgu, addasu ac ymateb i anghenion cymunedol newidiol, datblygiadau polisi a chyfleoedd ar draws y sector ynni.

Er bod y fframwaith cyffredinol a'r cyllid ar gyfer y rhaglen hon wedi'u sefydlu fel rhan o'r broses bum mlynedd o reoli prisiau, rydyn ni'n parhau yn ymrwymedig i ddysgu, addasu a gwella sut rydyn ni'n cyflawni ein cymorth. Felly mae'r strategaeth hon yn nodi'r cynnydd rydyn ni wedi'i wneud, y mewnbwn rydyn ni wedi'i dderbyn a'r camau rydyn ni'n eu cymryd i wneud y mwyaf o'r gwerth y mae ein hymrwymiadau'n ei ddarparu ar gyfer cymunedau, y rhwydwaith a'n holl gwsmeriaid.

Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar weithgaredd ar draws ardaloedd trwydded SP Distribution a SP Manweb. Wrth i'r broses integreiddio gyda SP Electricity North West barhau, rydyn ni'n gweithio i sicrhau bod ein hagwedd at ynni cymunedol yn cyd-fynd â'i gilydd ac yn ystyried sut gall strategaethau'r dyfodol adlewyrchu gweithgaredd ar draws ôl-troed ein rhwydwaith estynedig.

Yn ogystal â chyflawni ein hymrwymiadau ED2, rydyn ni hefyd yn edrych ymlaen at ED3, y cyfnod rheoli prisiau nesaf sy'n dechrau yn 2028. Drwy ymgysylltu'n barhaus â chymunedau, rhanddeiliaid a phartneriaid, rydyn ni'n helpu i siapio blaenoriaethau'r dyfodol ac yn archwilio sut gall ynni cymunedol chwarae hyd yn oed fwy o rôl fel partner cyflenwi strategol, gan gysylltu anghenion sy'n seiliedig ar leoedd â blaenoriaethau'r rhwydwaith a chynnig buddion parhaol i gymunedau, lleoedd, y rhwydwaith a'r holl gwsmeriaid.

Gyda'n gilydd, rydyn ni'n cadw trydan i lifo'n ddiogel ac yn ddibynadwy i dros **6 miliwn** o bobl ar draws rhwydwaith sy'n cwmpasu dros **172,000km**, **24** awr y dydd, **365** diwrnod y flwyddyn.



SP Distribution

Mae SP Distribution (SPD) yn gwasanaethu Canolbarth a De'r Alban.

SP Electricity North West

Mae SP Electricity West (SPENW) yn gwasanaethu Manceinion Fwyaf, Cumbria a Swydd Gaerhirfryn.

SP Manweb

Mae SP Manweb (SPM) yn gwasanaethu Glannau Mersi, Swydd Gaer, Gogledd Cymru a Swydd Amwythig.

Ynni Cymunedol

Mae ein rôl yn llawer mwy na chynnal a gweithredu'r rhwydwaith trydan. Wrth i'r system ynni esblygu, mae gennym gyfle i weithio gyda chymunedau er mwyn helpu i greu atebion sydd o fudd i leoedd lleol, yn cefnogi anghenion y rhwydwaith ac yn creu gwerth i'r holl gwsmeriaid.

Rydyn ni'n ystyried sefydliadau ynni cymunedol fel partneriaid cyflawni pwysig yn y broses o bontio tuag at bŵer glân. Drwy eu dealltwriaeth o flaenoriaethau lleol, perthnasoedd cymunedol y gellir ymddiried ynddyn nhw a'r gallu i ddod â phobl at ei gilydd, gallan nhw helpu i gysylltu anghenion sy'n seiliedig ar leoedd gydag amcanion y system ynni ehangach. Wrth wneud hynny, maen nhw'n creu buddion sy'n mynd y tu hwnt i gynhyrchu ynni, gan gynnwys gwydnwch gwell, llai o allyriadau carbon, gwerth cymdeithasol, datblygiad economaidd a mwy o rôl yn y broses trawsnewid ynni.

Credwn fod gan ynni cymunedol rôl hanfodol wrth helpu i siapio system ynni sy'n lanach, yn decach ac yn fwy gwydn. Drwy alluogi cymunedau i gymryd rhan mewn atebion ynni, dylanwadu arnyn nhw ac elwa ohonyn nhw, gall sefydliadau ynni cymunedol helpu i sicrhau bod y broses drawsnewid yn arwain at ganlyniadau positif nid yn unig i gymunedau unigol, ond hefyd i'r rhwydwaith ehangach a'r holl gwsmeriaid.

Rydyn ni'n cydnabod bod gwireddu potensial llawn ynni cymunedol yn gofyn am fwy na dim ond cefnogaeth i brosiectau unigol. Mae angen partneriaeth go iawn. I ni, mae hyn yn golygu cynnwys cymunedau yn gynt yn y broses o wneud penderfyniadau, cydweithio i adnabod cyfleoedd sy'n seiliedig ar leoedd, gwella mynediad at arbenigedd ar draws meysydd fel Cysylltiadau, Hyblygrwydd a Gweithrediadau'r System Ddosbarthu (DSO), gan gefnogi meithrin gallu, a chreu sianeli adborth clir fel y gall cymunedau weld sut mae eu mewnbwn yn dylanwadu ar ein gweithgareddau. Er bod cwmpas ein hymrwymiadau ED2 presennol yn sefydlog, rydyn ni'n chwilio'n barhaus am gyfleoedd i gryfhau'r ffyrdd hyn o weithio ac i adeiladu'r sylfeini ar gyfer cydweithio dyfnach yn ED3 a thu hwnt.







Cyflwr y sector

Trosolwg o ardaloedd trwydded SP Energy Networks.

Yn 2025 parhau i dyfu wnaeth ynni cymunedol ar draws holl feysydd gwasanaeth SPEN, gyda thri sefydliad corfforedig newydd a thair rôl FTE yn cael eu creu. Mae cyllid datblygu wedi cynyddu bedair gwaith a thaliadau budd cymunedol wedi treblu, gan danlinellu budd sylweddol prosiectau ynni cymunedol i'w cymunedau ehangach.

Daw'r ffigurau hyn o ymchwil diweddaraf Cyflwr y Sector a wnaed gan Ynni Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol yr Alban ac Ynni Cymunedol Lloegr, ac mae'n rhoi cipolwg o weithgaredd ynni cymunedol ar draws ardaloedd trwydded SP Energy Network.

Sefydliadau cymunedol newydd a gyfansoddwyd gan ddod â'r cyfanswm i 90

3

Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (FTEs) a gyflogir yn y sector cymunedol, gyda 3 swydd FTE newydd wedi'u creu

130

Aelodau

11,996

Gwirfoddolwyr

1,128

Capasiti trydan adnewyddadwy sy'n cynhyrchu 76GWh o drydan sy'n eiddo i'r gymuned

35.6MW

Cerbydau trydan a 88 o E-feiciau yn weithredol

116

Sicrhawyd cyllid datblygu a £53,455 o fuddsoddiad ar gyfer prosiectau newydd

£2.57m

Tunelli o allyriadau carbon wedi'u harbed

14,000

Gwariant Budd Cymunedol o 22 o gronfeydd cymunedol

£528k

Ein blaenoriaethau strategol ar gyfer ynni cymunedol

Ein gweledigaeth ar gyfer 2030 yw grymuso cymunedau ar draws ardaloedd trwydded SP Energy Networks i gymryd rhan yn y trawsnewidiad ynni ac elwa arno, gan helpu i sicrhau buddion i gymunedau, lleoedd, y rhwydwaith a'r holl gwsmeriaid.



I gyflawni hyn, rydyn ni'n canolbwyntio ar bedair blaenoriaeth strategol:

1 Prosiectau

Cynyddu nifer y prosiectau ynni cymunedol hyfyw sy'n symud o'r cam cysyniad i'r cam cyflawni.

Byddwn yn cefnogi cymunedau i ddatblygu prosiectau sy'n sicrhau buddion lleol tra'n cyfrannu at amcanion y system ynni ehangach, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, hyblygrwydd, effeithlonrwydd ynni, storio ac atebion ynni lleol clyfar.

Canlyniad:
Mwy o brosiectau ynni cymunedol yn cyrraedd y cam cyflawni'n llwyddiannus a chreu buddion hirdymor lleol a buddion ar draws y system gyfan.

2 Llywio

Creu cyfleoedd cyfathrebu ac ymgysylltu sy'n arwain at gyfleoedd ynni cymunedol perthnasol ac ystyrlon yn lleol.

Byddwn yn ei gwneud yn haws i gymunedau ddeall y rhwydwaith, adnabod cyfleoedd a chael mynediad at y wybodaeth, yr adnoddau a'r perthnasoedd sydd eu hangen i fwrw ymlaen â phrosiectau.

Canlyniad:
Mae gan gymunedau'r wybodaeth, y perthnasoedd a'r hyder sydd eu hangen i gymryd rhan effeithiol yn y trawsnewidiad ynni.

3 Cyfraniad

Buddsoddi mewn arloesedd, ymchwil a chydweithio sy'n cefnogi cyfraniad ynni cymunedol tuag at wydnwch, bregusrwydd ac amcanion ehangach y system ynni.

Byddwn yn cefnogi mentrau sy'n helpu cymunedau i fynd i'r afael â heriau lleol, tra'n cyfrannu ar yr un pryd at system ynni sy'n fwy clyfar, yn fwy gwydn ac yn fwy cynhwysol.

Canlyniad:
Mae ynni cymunedol yn gwneud cyfraniad cynyddol at wydnwch, cymorth ar gyfer bregusrwydd ac arloesedd ar draws ardaloedd ein trwydded.

4 Gwreiddio

Gwreiddio ynni cymunedol ar draws SP Energy Networks ac adnabod cyfleoedd am welliant parhaus a thwf yn y dyfodol.

Byddwn yn integreiddio ystyriaethau ynni cymunedol i'n prosesau busnes, gwneud penderfyniadau a chynllunio'r rhwydwaith yn y dyfodol, gan sicrhau bod ynni cymunedol yn parhau'n rhan o sut rydyn ni'n cynnig buddion i gwsmeriaid a chymunedau.

Canlyniadau:
- Integreiddio cryfach o ran ynni cymunedol ar draws SPEN.
- Gwell ymwybyddiaeth a gallu sefydliadol.
- Adlewyrchu ynni cymunedol yn y broses o gynllunio'r rhwydwaith yn y dyfodol a datblygiad ED3.

Buddion trawsbynciol

Gyda'i gilydd, mae'r pedair blaenoriaeth hyn yn cefnogi set gyffredin o ganlyniadau sydd o fudd i gymunedau, y system ynni a chymdeithas yn ei chyfanrwydd.

Cymuned a lle

- Mwy o berchnogaeth a chyfranogiad lleol yn y trawsnewidiad ynni
- Gwydnwch cymunedol a gwerth cymdeithasol cryfach
- Datblygu sgiliau, cyfleoedd economaidd a buddsoddiad lleol
- Cymorth i gymunedau bregus a'r rhai sy'n cael eu tan-gynrychioli.



Y rhwydwaith a'r system

- Mwy o gyfranogiad mewn gwasanaethau hyblygrwydd
- Defnyddio capasiti'r rhwydwaith presennol yn well
- Cymorth ar gyfer cysylltiadau ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel
- Arloesedd mewn systemau ynni lleol clyfar a marchnadoedd ynni lleol.




Cwsmeriaid

- Mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfleoedd ynni
- Mwy o fynediad at dechnolegau carbon isel
- Lleihau'r defnydd o ynni drwy fentrau cynghori, effeithlonrwydd ac ôl-osod
- Mwy o gyfleoedd i gwsmeriaid gymryd rhan yn y trawsnewidiad ynni ac elwa ohono.



Datgarboneiddio

- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy
- Llai o allyriadau carbon o gartrefi, busnesau a thrafnidiaeth
- Mwy o ddefnydd o dechnolegau carbon isel
- Cynnydd tuag at uchelgeisiau rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer ynni glân.



Mae'r manteision hyn yn dangos sut gall ynni cymunedol weithio fel pont rhwng blaenoriaethau lleol ac anghenion y system gyfan, gan gynnig gwerth i gymunedau, lleoedd, y rhwydwaith a'r holl gwsmeriaid.

Sut mae ynni cymunedol yn ychwanegu gwerth ar draws SP Energy Networks

Mae ynni cymunedol yn cynnig gwerth ymhell y tu hwnt i brosiectau unigol. Drwy gysylltu blaenoriaethau lleol gydag anghenion y rhwydwaith ac anghenion cwsmeriaid, mae'n helpu SP Energy Networks i gyflawni ystod o amcanion strategol ar draws ein busnes.

Darparu effaith gymdeithasol

Mae ynni cymunedol yn un o wyth ymrwymiad sy'n cael eu holrhain drwy Strategaeth Pontio Teg SP Energy Networks ac yn y strategaeth gyflawni sy'n cael ei henwi o fewn y Strategaeth Fusnes Gynaliadwy.

Mae sefydliadau ynni cymunedol yn creu gwerth cymdeithasol drwy feithrin gallu lleol, cefnogi cyfranogiad cymunedol, cryfhau gwydnwch a helpu i sicrhau bod buddion y trawsnewidiad ynni yn cael eu rhannu'n decach ar draws cymdeithas. Caiff effaith ei mesur drwy'r un fframwaith adenillion cymdeithasol o fuddsoddi a ddefnyddir ar draws SP Energy Networks.

Cefnogi cwsmeriaid a chymunedau bregus

Mae sefydliadau ynni cymunedol yn aml yn bartneriaid lleol y gellir ymddiried ynddyn nhw, gyda chysylltiadau clos â chartrefi y gall fod yn anodd eu cyrraedd drwy sianeli traddodiadol.

Drwy weithio ochr yn ochr â sefydliadau lleol, gall ynni cymunedol helpu i gynnig cyngor ar ynni, mentrau effeithlonrwydd ynni, rhaglenni ôl-osod a chymorth i gwsmeriaid bregus, gan gyfrannu at amcanion ein Strategaeth Bregusrwydd ymhlith Defnyddwyr a'n Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.

Cyflawni pŵer glân

Mae ynni cymunedol yn cefnogi'r broses drawsnewid tuag at system ynni lanach drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy, mentrau effeithlonrwydd ynni a hyrwyddo technolegau carbon isel fel cerbydau trydan, pympiau gwres a storio batris.

Drwy alluogi pobl leol i gymryd rhan mewn datgarboneiddio, mae ynni cymunedol yn cyfrannu at ymrwymiadau Pŵer Glân SP Energy Networks tra'n helpu cymunedau i rannu buddion y broses drawsnewid.

Galluogi rhwydweithiau clyfar a hyblyg

Gall ynni cymunedol gefnogi rhwydwaith sy'n fwy clyfar ac effeithlon drwy gymryd rhan mewn gwasanaethau hyblygrwydd, rheoli ynni lleol, storio a mentrau ymateb ymhlith defnyddwyr.

Gall y dulliau hyn helpu i wneud y mwyaf o'r defnydd o seilwaith presennol y rhwydwaith, cefnogi cysylltu technolegau carbon isel newydd a lleihau'r pwysau ar y rhwydwaith yn ystod cyfnodau brig.

Mae gan ein Tîm Hyblygrwydd darged o sicrhau 20MW o gapasiti hyblygrwydd o brosiectau ynni cymunedol erbyn 2030 ac wedi cyhoeddi canllaw pwrpasol i helpu sefydliadau cymunedol i gymryd rhan mewn marchnadoedd hyblygrwydd. Darllenwch y canllaw fan hyn: Canllaw Ynni Cymunedol SPEN 2025.

Manteisio ar dir ac asedau

Mae Strategaeth Fusnes Gynaliadwy SP Energy Networks yn ystyried ynni cymunedol fel un o'r defnyddiau arfaethedig ar gyfer daliadau tir addas anweithredol.

Drwy gydweithio â chymunedau a rhanddeiliaid, rydyn ni'n archwilio cyfleoedd i ddatgloi asedau'r rhwydwaith ac asedau trosglwyddo a all gefnogi cynlluniau ynni lleol a chreu gwerth parhaol i gymunedau.

Meithrin sgiliau, galluogrwydd a chyfleoedd lleol

Mae ynni cymunedol yn helpu i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen ar gyfer trawsnewidiad ynni llwyddiannus.

Drwy addysg, ymgysylltu â phobl ifanc a gweithgareddau meithrin gallu, mae ynni cymunedol yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth lleol ac yn cefnogi uchelgeisiau SP Energy Networks i ddatblygu talent y dyfodol ac i adeiladu gweithlu ynni sy'n fwy cynhwysol.

Gwella data, cynnig cipolwg a thryloywder

Mae gweithgareddau ynni cymunedol yn cynnig cipolwg gwerthfawr i anghenion cymunedol, datblygu prosiectau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg ym maes ynni.

Mae mentrau fel mapio GIS, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac adrodd ar Gyflwr y Sector yn cyfrannu at yr ymrwymiadau ehangach i dryloywder, digideiddio a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws SP Energy Networks.

Siapio ED3 a'r rhwydwaith yn y dyfodol

Wrth i ni edrych ymlaen tuag at ED3 (2028-2033), mae gan ynni cymunedol rôl bwysig wrth siapio'r system ynni yn y dyfodol.

Bydd y cyfnod rheoli prisiau nesaf yn gweld buddsoddiad sylweddol mewn rhwydweithiau trydan wrth i'r galw am drydan glân barhau i dyfu. Gall sefydliadau ynni cymunedol helpu i sicrhau bod buddsoddiadau'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol, yn cefnogi atebion sy'n seiliedig ar leoedd ac yn cynnig buddion i gymunedau, y rhwydwaith a'r holl gwsmeriaid.

Drwy ymgysylltu, arloesi a chydweithio parhaus, bydd ynni cymunedol yn parhau i fod yn bartner cyflawni pwysig wrth greu dyfodol ynni glanach, tecach a mwy gwydn.

Ynni cymunedol a gwasanaethau hyblygrwydd

Cefnogi cymunedau lleol i greu refeniw a chefnogi pontio teg

Gall sefydliadau ynni cymunedol chwarae rôl bwysig wrth gefnogi rhwydwaith trydan sy'n fwy clyfar a mwy hyblyg tra'n creu cyfleoedd refeniw newydd ar gyfer eu prosiectau. Drwy Wasanaethau Hyblygrwydd SP Energy Networks, efallai y bydd sefydliadau sydd ag asedau fel PV solar, storio batris, gwefru cerbydau trydan, systemau gwresogi clyfar, neu dechnolegau galw hyblyg eraill, yn gallu darparu gwasanaethau sy'n helpu i reoli cyfyngiadau ar y rhwydwaith lleol.



Pam cymryd rhan?

- Y posibilrwydd o greu refeniw o asedau cymunedol
- Cefnogi gwydnwch ynni lleol ac effeithlonrwydd y rhwydwaith
- Galluogi mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy
- Cyfrannu at system ynni carbon is sy'n fwy clyfar.



Enghreifftiau o gymryd rhan

Dyma rai enghreifftiau go iawn o sut gall grwpiau cymunedol gyfrannu:

Rhyddhau ynni o storfa batris yn ystod cyfnodau brig
Os oes gan eich grŵp system fatri, gallwch ryddhau trydan sydd wedi'i storio yn ôl i'r grid pan fo'r galw'n uchel. Mae hyn yn helpu i leihau'r pwysau ar y rhwydwaith ac yn cefnogi anghenion ynni lleol.

Addasu allbwn systemau PV solar yn seiliedig ar anghenion y grid
Gall paneli solar gael eu gosod i gynyddu neu leihau faint o drydan maen nhw'n ei anfon i'r grid, yn dibynnu ar yr hyn sydd ei angen ar y rhwydwaith ar y pryd.

Adeiladau cymunedol yn lleihau'r galw yn ystod cyfnodau o ddefnydd uchel
Gall canolfannau cymunedol, ysgolion neu adeiladau eraill sy'n cael eu rhannu leihau eu defnydd o drydan yn ystod cyfnodau prysur – er enghraifft, drwy ddiffodd offer nad yw'n hanfodol neu symud y defnydd i gyfnodau tawelach.

Sut i gymryd rhan

Archwiliwch gyfleoedd hyblygrwydd
Adolygwch ofynion hyblygrwydd y presennol a'r dyfodol ar draws ein rhwydwaith. Nodwch ble gallai eich asedau gefnogi anghenion y system drydan leol.

Darllenwch ein canllawiau cymryd rhan
Darllenwch Ganllawiau Cymryd Rhan SP Energy Networks i ddeall: Gofynion cymhwysedd, Mathau o wasanaeth, Prosesau tendro, Rhwymedigaethau darparwyr a thaliadau.

Siaradwch â'n tîm
Rydyn ni'n awyddus i gefnogi sefydliadau ynni cymunedol sydd â diddordeb mewn gwasanaethau hyblygrwydd. Trefnwch alwad gyda'n tîm hyblygrwydd i gael cyngor ar lwybrau a chyfleoedd i gymryd rhan.

E-bostiwch ni:
flexibility@spenergynetworks.co.uk

Dysgwch fwy:
Gwasanaethau Hyblygrwydd – SP Energy Networks

Y siwrnai hyd yma

Mae ein ffordd o gefnogi ynni cymunedol wedi'i siapio gan adborth uniongyrchol wrth gymunedau ac wedi'i gefnogi gan dystiolaeth.

Dywedodd grwpiau ynni cymunedol wrthym fod angen canllawiau cliriach, mynediad haws at y bobl iawn, cydweithio cryfach a mwy o hyder bod ynni cymunedol wedi'i wreiddio ar draws SP Energy Networks. Dyma sut wnaethom ni ymateb:

Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni

Gofynnoch chi am **ganllawiau cliriach**

Fe wnaethon ni ddatblygu canllawiau sy'n benodol i'r gymuned sy'n cwmpasu cysylltiadau, PV solar a hyblygrwydd, wedi'u cefnogi gan weithdai ar dechnoleg, cyllid a'r broses gysylltu, gan helpu grwpiau i ddeall eu dewisiadau ac i lywio penderfyniadau technegol a masnachol cymhleth.

Darparu canllawiau guidance

Rhannu'r hyn a ddysgwyd ac arferion da
Ehangwyd ein llyfrgell o ganllawiau ac astudiaethau achos, cefnogwyd ymchwil cenedlaethol a rhanbarthol Cyflwr y Sector, a defnyddiwyd cynadleddau, ymgyrchoedd a gweithdai i rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws y sector, gan gydweithio'n agos gydag Ynni Cymunedol Cymru, Lloegr a'r Alban.

Gofynnoch chi am **fynediad haws at gymorth**

Darparodd ein Tîm Ynni Cymunedol flwch post pwrpasol a chafodd ein gwefan ei gwella, gan ddod â chanllawiau, astudiaethau achos ac adnoddau hunanwasanaeth at ei gilydd mewn un lle hygyrch.

Darparu Cymorth

Clinig holi ac ateb am y cynllun ynni lleol
Fe wnaethon ni gynnal clinig Holi ac Ateb pwrpasol gyda Great British Energy ar 19 Mai, gan roi cyfle i grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid archwilio beth mae'r Cynllun Pŵer Lleol yn ei olygu ar gyfer ynni lleol a chymunedol. Mae recordiad ar gael, gydag adnodd holi ac ateb ysgrifenedig wrthi'n cael ei ddatblygu.

Gofynnoch chi am **ddangos ymrwymiad**

Mae ynni cymunedol bellach yn cael ei gefnogi gan dîm ymroddedig sy'n cydweithio â'r adrannau Cysylltiadau, Hyblygrwydd ac Optimeiddio Strategol. Caiff gweithgareddau eu cynrychioli mewn trafodaethau gweithredol ac wrth i SP Energy Networks ymgysylltu â gweithredwyr rhwydweithau eraill.

Dangos ymrwymiad

Rhwydwaith dysgu ynni
Rydyn ni'n cefnogi rhaglen fentora Ynni Cymunedol Cymru / Rhwydwaith Dysgu Ynni, gan helpu grwpiau sy'n datblygu i gael mynediad at fentoriaid profiadol, dysgu ar y cyd a chymorth ymarferol, gan ymateb i dystiolaeth bod mentora parhaus yn gwella galluogrwydd cymunedol a chanlyniadau prosiectau.

Gofynnoch chi am **weithio'n gydweithredol**

Fe wnaethon ni gryfhau perthnasoedd gydag Ynni Cymunedol Cymru, Lloegr a'r Alban, Canolfannau Gweithredu ar yr Hinsawdd, awdurdodau lleol a rhwydweithiau ehangach.

Gweithio'n gydweithredol

Gwrando ar draws rhanbarthau SP Energy Networks
Rhoddodd grŵp ffocws ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban adborth ar y Siwrnai Ynni Cymunedol, hygyrchedd y wefan a datblygiad y strategaeth hon, gan sicrhau bod ein cymorth yn adlewyrchu cyd-destunau rhanbarthol a phrofiadau defnyddwyr gwahanol.

> "Pobl sy'n gwneud i bethau weithio... mae defnyddio'r cyfrwng a'r model cywir wrth weithio gyda phobl yn gwneud i bethau weithio'n well ac yn gynt."
>
> Adroddiad Mewnwelediadau Ynni Cymunedol SPEN, Ebrill 2026

> "Mae'n sgwrs agored oherwydd dydyn nhw ddim yn or-sensitif. Er mai nhw yw'r arbenigwyr yn y berthynas ddwyffordd hon, does dim ofn arnoch chi i ofyn cwestiwn gwirion, oherwydd rydych chi'n gwybod y cewch chi ateb gonest."
>
> Sefydliad ynni cymunedol, Proses gysylltu SPEN

Y siwrnai Ynni Cymunedol

Ym mis Mawrth, fe wnaethon ni lansio ein Siwrnai Ynni Cymunedol – adnodd a ddatblygwyd i gefnogi grwpiau cymunedol sy'n ystyried cynllun ynni cymunedol, neu'n cynllunio ar gyfer un. Mae'n cynnig system sy'n gwneud penderfyniadau cam wrth gam i fynd â chwsmeriaid o'r syniad cychwynnol hyd at gysylltu â'r rhwydwaith.

Cefnogir y daith chwe cham gan fideos byr, canllawiau ymarferol, rhestrau gwirio ac astudiaethau achos sy'n ymdrin â gwahanol dechnolegau a chamau datblygu prosiectau. Bydd pecynnau cymorth ac adnoddau ychwanegol yn cael eu hychwanegu drwy gydol y flwyddyn hon.

Ewch i **wefan y Siwrnai Ynni Cymunedol** i gael gweld y siwrnai'n llawn, fideos ac adnoddau ategol.

Cam 1 Ydych chi wedi ymgysylltu â'r gymuned?

↓

Cam 2 Ydych chi wedi ymchwilio i'ch prosiect?

↓

Cam 3 Ydych chi wedi cwblhau astudiaeth ddichonoldeb?

↓

Cam 4 Oes angen cymorth technegol arnoch chi?

↓

Cam 5 Ydych chi wedi dod o hyd i gymorth ariannol?

↓

Cam 6 Rydych chi'n barod i wneud cysylltiad!





Darparu effaith gymdeithasol

Mae ynni cymunedol yn creu gwerth cymdeithasol go iawn y gellir ei fesur ar draws ardaloedd ein trwydded.

Mae'r metrigau gyferbyn yn dangos cyrhaeddiad ac effaith cymorth ynni cymunedol SP Energy Networks yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y ffigurau terfynol yn cael eu cadarnhau a'u cyhoeddi fel rhan o'n hadroddiadau blynyddol.


890+

o lawrlwythiadau ar gyfer ein Siwrnai Ynni Cymunedol ers ei lansio ym mis Mawrth 2026



2,600+

Nifer y rhanddeiliaid sydd wedi troi at ein gwefan



6

o ddigwyddiadau ynni cymunedol sydd wedi'u noddi a'u mynychu gan ein tîm ymroddedig



745+

wedi lawrlwytho ein hastudiaethau achos a'n dogfennau ategol



Beth ddywedodd cymunedau wrthym ni

Awydd cryf – ond mae rhwystrau ymarferol yn dal prosiectau'n ôl

Rhannodd 166 o randdeiliaid ar draws ardaloedd trwydded SP Energy Networks eu profiadau a'u hanghenion cymorth.

1. Sylfeini cryf

64%
argraff bositif o ynni cymunedol

54%
yn ei weld yn bwysig iawn neu'n hynod o bwysig i'w cymuned

44%
yn datblygu neu'n cyflawni prosiect yn barod

Ymhlith yr ymatebwyr gweithredol, roedd **84%** yn ymwneud â dau brosiect neu fwy.

2. Rhwystrau parhaus o ran darpariaeth

66% yn dweud bod y broses gysylltu wedi bod yn her

Prif rwystrau

Data a gwybodaeth	62%
Cynllunio a rheoleiddio	60%
Modelau refeniw ansicr	57%
Cysylltiadau â'r grid	56%

3. Gwneud cymorth yn haws i'w ddefnyddio

77% yn ymwybodol o gymorth SPEN

ond dim ond **11%** gafodd fynediad ato

Gofynnodd cymunedau am y canlynol

- Canllawiau clir sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd
- Siwrnai cysylltiadau dryloyw
- Hyfforddiant a chymorth technegol
- Cyswllt penodol ac ymatebion cyflymach
- Help gyda chyllid a phartneriaethau

Ffynhonnell: Arolwg Rhanddeiliaid SPEN Community Energy, Gorffennaf 2026. Arolwg dangosol o 166 o ymatebwyr a recriwtiwyd drwy ddigwyddiadau SPEN a LinkedIn; Nid yw'r canfyddiadau'n cynrychioli pob cymuned.

Sut mae ein cymunedau'n credu rydyn ni wedi llwyddo

Cynhaliwyd Arolwg Ynni Cymunedol i Randdeiliaid er mwyn cofnodi'r profiadau, lefelau ymwybyddiaeth, a chanfyddiadau o ynni cymunedol, ac i helpu i nodi cyfleoedd i ddatblygu'r canllawiau a'r gefnogaeth a gynigir i gymunedau sydd â diddordeb mewn ynni cymunedol. Derbyniwyd canlyniadau'r arolwg hwn ym mis Gorffennaf 2026.



Beth mae hyn yn ei olygu i'n strategaeth

- Ei gwneud hi'n haws dod o hyd i gymorth a'i ddefnyddio
- Egluro siwrnai'r cysylltiadau
- Meithrin gallu prosiectau
- Gwreiddio arbenigedd ynni cymunedol ar draws SP Energy Networks

Edrych ymlaen

Mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n weddill

Er ein bod yn cydnabod y gwaith caled sydd eisoes wedi'i wneud i sicrhau bod ein cymunedau'n cael eu cefnogi ar hyd siwrnai eu prosiectau, rydyn ni'n cydnabod bod rhwystrau i'w goresgyn o hyd. Felly, comisiynwyd dwy astudiaeth.

1. Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA) drwy Brifysgol Strathclyde i ddeall yr hyn sy'n ysgogi ac yn rhwystro ynni cymunedol yn y DU ar hyn o bryd.

2. Mae adroddiad gan Rege yn archwilio profiadau sefydliadau ynni cymunedol wrth iddyn nhw ryngweithio â SP Energy Networks drwy gydol siwrnai eu prosiect ynni.

Mae'r adroddiadau wedi cynnig gwybodaeth werthfawr ar sut gallwn wella ein prosesau mewnol ein hunain, tra hefyd yn cefnogi mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny sy'n gyffredin i gymunedau ledled y DU. Ceir themâu cyffredin o ran yr hyn y mae grwpiau cymunedol yn ei ystyried yn rhwystrau allweddol. Mae'r rhain hefyd yn adlewyrchu rhai o'r heriau a nodwyd yn yr arolwg Ynni Cymunedol i Randdeiliaid.







Edrych ymlaen: alinio â blaenoriaethau strategol

Ceisiadau am gysylltu â'r grid – SP Energy Networks mewnol

1 Rhwystr

Galwodd grwpiau am welliannau i ddeunyddiau canllaw ar-lein, mwy o adnoddau am gymorth cyn cyflwyno cais, a safoni prosesau yn ystod y camau datblygu cynnar.

2 Sut byddwn yn ymateb

Byddwn yn gweithio gyda'n tîm Cysylltiadau â'r Grid i weithredu'r gwelliannau hyn, gan ganolbwyntio ar arwyddion cliriach ac ymgysylltu'n gynharach.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 2
Gwelliannau i brofiad cwsmeriaid o'r broses cysylltu â'r grid, gydag arweiniad ac adnoddau cliriach o'r cam gwneud cais hyd at y cam cysylltu.

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 3
Bydd darparu mwy o wybodaeth yng nghamau cynnar prosiect yn galluogi cymunedau i ddeall eu dewisiadau o ran sut gallai eu prosiectau wella gwydnwch lleol.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Cynnal un neu fwy o sesiynau clinig holi ac ateb sy'n canolbwyntio ar Gysylltiadau â'r Grid, sy'n seiliedig ar adborth diweddar wrth randdeiliaid sy'n nodi hyn fel maes blaenoriaeth.
- Cymryd rhan mewn ymweliadau safle ar draws ardaloedd y drwydded, gan gynnig adnoddau i egluro cysylltiadau â'r grid, amserlenni cyflawni a phrosesau'r rhwydwaith drwy ymgysylltu agored sy'n seiliedig ar leoedd.
- Gweithio gydag Ofgem, DESNZ a GB Energy drwy weithgorau i ddylanwadu ar newid positif ar gyfer cymunedau a'i alluogi.

Proses cysylltu â'r grid – SP Energy Networks mewnol

1 Rhwystr

Ceisiodd grwpiau gael mwy o eglurder am benderfyniadau dylunio cysylltu â'r grid, costau, newidiadau i amserlenni a hyblygrwydd trefniadau talu.

2 Sut byddwn yn ymateb

Rydyn ni'n adolygu ein deunydd cyfathrebu ym mhob cam o'r broses gysylltu ac yn cyflwyno diweddariadau cliriach ar gamau allweddol i ymgeiswyr cymunedol.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 2
Gwelliannau i brofiad cwsmeriaid o'r broses cysylltu â'r grid, gydag arweiniad ac adnoddau cliriach o'r cam gwneud cais hyd at y cam cysylltu.

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 3
Bydd darparu mwy o wybodaeth yng nghamau cynnar prosiect yn galluogi cymunedau i ddeall eu dewisiadau o ran sut gallai eu prosiectau wella gwydnwch lleol.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Cynnal un neu fwy o sesiynau clinig holi ac ateb sy'n canolbwyntio ar Gysylltiadau â'r Grid, sy'n seiliedig ar adborth diweddar wrth randdeiliaid sy'n nodi hyn fel maes blaenoriaeth.
- Cymryd rhan mewn ymweliadau safle ar draws ardaloedd y drwydded, gan gynnig adnoddau i egluro cysylltiadau â'r grid, amserlenni cyflawni a phrosesau'r rhwydwaith drwy ymgysylltu agored sy'n seiliedig ar leoedd.
- Gweithio gydag Ofgem, DESNZ a GB Energy drwy weithgorau i ddylanwadu ar newid positif ar gyfer cymunedau a'i alluogi.

Edrych ymlaen: alinio â blaenoriaethau strategol

Cymorth ac uwchsgilio mewnol i Grwpiau Ynni Cymunedol – SP Energy Networks mewnol

1 Rhwystr

Gofynnodd grwpiau am fwy o ymgysylltu, strwythurau cyswllt mewnol cliriach a bod cymorth un-i-un ar gael.

2 Sut byddwn yn ymateb

Rydyn ni wedi ymrwymo i uwchsgilio mewnol ac wedi gwella eglurder y strwythur cyswllt yn y strategaeth hon. Rydyn ni hefyd yn trefnu ymweliadau â safleoedd ac yn ehangu ein tîm er mwyn rhoi mwy o gymorth pwrpasol.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 1
Bydd cefnogaeth well ar hyd oes prosiect gan gydweithwyr mwy gwybodus sy'n ystyried ymrwymiadau ED3 yn cynnig llwybr cliriach i gymunedau, o gam cysyniad y prosiect hyd at ei gyflawni.

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 4
Sicrhau bod ynni cymunedol wedi'i wreiddio'n llwyr yn ein cynllun busnes ED3 ac yn ein prif strategaethau busnes.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Cynnal sesiynau gweithdy mewnol a datblygu adnoddau ar gyfer timau SP Energy Networks – gan gynnwys Cysylltiadau a Hyblygrwydd – fel y gallant gefnogi cymunedau yn well ym mhob cam o siwrnai eu prosiectau ynni.
- Cymryd rhan mewn ymweliadau safle ar draws ardaloedd y drwydded, gan ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau ynni cymunedol.
- Tyfu'r tîm Ynni Cymunedol i alluogi mwy o gymorth pwrpasol un-i-un.
- Parhau i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Dysgu Ynni (ELN), gan ddarparu cyllid ar gyfer chwe mentor sy'n gweithio gyda chymunedau i gefnogi lansiad neu dwf eu prosiectau ynni.

Ymgysylltu â diwydiant – SP Energy Networks mewnol

1 Rhwystr

Galwodd grwpiau am fwy o gyfleoedd cydweithio a chymhellion i brosiectau ynni cymunedol drwy ED3.

2 Sut byddwn yn ymateb

Mae proses ein Cynllun Busnes ED3 ar waith, gyda'n Tîm Ynni Cymunedol yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod prosiectau ynni cymunedol yn cael eu hystyried yn briodol gyda'r mecanweithiau iawn yn eu lle.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 1
Bydd cydweithio gwell ar hyd oes prosiect yn cynnig llwybr cliriach i gymunedau, o gam cysyniad y prosiect hyd at ei gyflawni.

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 4
Sicrhau bod ynni cymunedol wedi'i wreiddio'n llwyr yn ein cynllun busnes ED3 ac yn ein prif strategaethau busnes.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Cyfrannu'n sylweddol at broses Cynllun Busnes ED3 i sicrhau bod prosiectau ynni cymunedol yn cael eu hystyried yn briodol gyda'r mecanweithiau iawn yn eu lle.
- Cydweithio gydag Ofgem, DESNZ a GB Energy i ddylanwadu ar newid positif ar gyfer cymunedau a'i alluogi drwy weithgorau a mentrau eraill.
- Parhau i noddi adroddiad cenedlaethol Cyflwr y Sector, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i fireinio a gwella'n uniongyrchol y cymorth a ddarperir ar draws pob rhanbarth.

Edrych ymlaen: alinio â blaenoriaethau strategol

Cysylltiadau â'r grid a chyfyngu – y DU ehangach

1 Rhwystr

Mae costau cysylltu ac atgyfnerthu, ynghyd â rhestrau aros hir ar gyfer ceisiadau, yn parhau i achosi heriau i brosiectau ynni cymunedol.

2 Sut byddwn yn ymateb

Byddwn yn gweithio gydag Ofgem a DNOs eraill i weithredu newidiadau positif sy'n gwella mynediad at gysylltiadau ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 1
Bydd cymryd rhan yn y trafodaethau a'r penderfyniadau ynglŷn â Diwygio Cysylltiadau a mentrau cysylltiedig yn y diwydiant yn cefnogi cymunedau, nid yn unig yn ardal ein trwydded, ond ledled y DU – gan hwyluso'r broses o gyflawni prosiectau.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Gweithio gydag Ofgem a DNOs eraill i weithredu newidiadau positif sy'n gwella mynediad at gysylltiadau ar gyfer cynlluniau ynni cymunedol.
- Cydweithio gydag Ofgem, DESNZ a GB Energy drwy weithgorau i ddylanwadu ar newid positif ar gyfer cymunedau a'i alluogi.
- Gweithio gyda chydweithwyr yn nhimau Cysylltiadau a Hyblygrwydd SP Energy Networks i wella adnoddau a deunydd cyfathrebu gyda chymunedau ynglŷn â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu nhw a'u prosiectau.

Cymorth rheoleiddiol a strategaeth ynni cymunedol – y DU ehanagch

1 Rhwystr

Gall cymhlethdodau'r farchnad a thrwyddedu fod yn anodd i brosiectau ynni cymunedol eu llywio.

2 Sut byddwn yn ymateb

Byddwn yn cefnogi'r drafodaeth ynglŷn â datblygu llwybrau rheoleiddio i alluogi ynni cymunedol i gymryd rhan mewn marchnadoedd ynni a byddwn yn ymrwymo i gyflawni ein Strategaeth Ynni Cymunedol fel yr amlinellir yn ein Cynllun Busnes ED2.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 1
Bydd dylanwadu ar newid positif ym maes rheoleiddio yn dileu rhwystrau cymhleth i gymunedau, gan baratoi ffordd haws at gyflawni prosiectau.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Cefnogi'r drafodaeth ynglŷn â datblygu llwybrau rheoleiddiol i alluogi ynni cymunedol i fod yn rhan o farchnadoedd ynni.
- Defnyddio profiadau prosiectau ynni cymunedol i gynghori rhanddeiliaid perthnasol ynglŷn â heriau sy'n ymwneud â rheoliadau cyfredol.
- Cydweithio gydag Ofgem, DESNZ a GB Energy i ddylanwadu ar newid positif ar gyfer cymunedau a'i alluogi drwy weithgorau a mentrau eraill.

Edrych ymlaen: alinio â blaenoriaethau strategol

Mecanweithiau cyllido a chymorth – Y DU ehangach

1 Rhwystr

Diffyg mynediad at opsiynau cyllido a modelau busnes ar gyfer prosiectau ynni cymunedol, sy'n waeth mewn ardaloedd o amddifadedd uchel.

2 Sut byddwn yn ymateb

Fel DNO, ni allwn greu mecanweithiau cymorth ariannol yn uniongyrchol, ond gallwn ddefnyddio ein profiad o brosiectau ynni cymunedol i gynghori rhanddeiliaid perthnasol ac i lobïo ar ran cymunedau am welliannau i opsiynau ariannu a modelau busnes.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 1
Bydd dylanwadu ar newid cadarnhaol ar draws gwaith rheoleiddio yn cael gwared ar rwystrau cymhleth i gymunedau, gan greu llwybr haws i gyflawni prosiectau.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Gweithio gyda'n tîm Bregusrwydd i sicrhau nad yw ardaloedd cymunedau anodd eu cyrraedd yn cael eu gadael ar ôl.
- Manteisio ar brofiad o brosiectau ynni cymunedol i gynghori rhanddeiliaid perthnasol ar opsiynau cyllid a modelau busnes.
- Lobïo ar ran cymunedau am welliannau mewn opsiynau cyllid a modelau busnes.
- Cydweithio ag Ofgem, DESNZ a GB Energy i ddylanwadu a galluogi newid cadarnhaol i gymunedau drwy weithgorau a mentrau eraill.
- Parhau i noddi'r adroddiad cenedlaethol Cyflwr y Sector, gan ddefnyddio'r canfyddiadau i fynd ati'n uniongyrchol i fireinio a gwella'r cymorth sy'n cael ei ddarparu ar draws pob rhanbarth.

Capasiti a galluogrwydd – Y DU ehangach

1 Rhwystr

Caiff pwysau capasiti a galluogrwydd cynghorol cyfyngedig eu cydnabod fel rhwystrau allweddol i ddarparu'r cymorth ei angen i arwain cymunedau drwy siwrnai eu prosiectau.

2 Sut byddwn yn ymateb

Rydyn ni wedi ymrwymo i uwchsgilio ein timau mewnol er mwyn gallu cynnig cymorth mwy cynhwysfawr i brosiectau ynni cymunedol ar hyd eu hoes gyfan, o'r cam cysyniad i'r camau cyflawni a gweithredu.

3 Alinio â blaenoriaethau strategol

Yn cefnogi Blaenoriaeth Strategol 4
Bydd uwchsgilio a chynyddu ein timau mewnol gyda hyfforddiant ac adnoddau i roi'r cymorth angenrheidiol i gymunedau yn sicrhau bod ynni cymunedol yn cael ei wreiddio ar draws ein busnes.

4 Camau y gellir gweithredu arnyn nhw

- Cynnal sesiynau gweithdy mewnol a datblygu adnoddau ar gyfer timau SP Energy Networks – gan gynnwys Cysylltiadau a Hyblygrwydd – fel eu bod yn well am gefnogi cymunedau ymhob cam o siwrnai eu prosiect ynni.
- Tyfu'r tîm Ynni Cymunedol i alluogi mwy o gymorth pwrpasol.
- Parhau i gymryd rhan yn y Rhwydwaith Dysgu Cymunedol (ELN), gan ddarparu cyllid i chwe mentor sy'n gweithio gyda chymunedau i gefnogi lansiad neu dwf eu prosiectau ynni.

Y flwyddyn sydd i ddod

Ein hymrwymiadau ar gyfer 2026-2027

Rydyn ni wedi amlinellu camau y gellir eu gweithredu i fodloni ein Blaenoriaethau Strategol ar gyfer 2030. Isod gweler yr ymrwymiadau y byddwn yn eu gwneud yn 2026-27 i weithio tuag at hyn.

Ymgysylltu â'r gymuned a gwybodaeth

Ymweliadau â safleoedd ynni cymunedol
Bydd ein tîm Ynni Cymunedol yn ymweld â sawl safle ar draws ardaloedd ein trwydded, lle byddwn yn ymgysylltu â grwpiau ynni cymunedol. Fel blaenoriaeth, byddwn yn cynnig adnoddau i egluro cysylltiadau â'r grid, amserlenni cyflawni a phrosesau'r rhwydwaith, drwy ymgysylltiad agored sy'n seiliedig ar leoedd.

Clinigau holi ac ateb
Bydd ein tîm Ynni Cymunedol yn parhau i gynnal clinigau holi ac ateb lle gall cymunedau ofyn cwestiynau a chael mynediad at yr adnoddau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud eu prosiectau ynni yn llwyddiant. Byddwn yn penderfynu ar y pynciau mwyaf defnyddiol i ganolbwyntio arnyn nhw yn seiliedig ar adborth. Rhoddir blaenoriaeth i Gysylltiadau â'r Grid, sydd wedi'i nodi fel rhwystr allweddol sy'n weddill.

Gwybodaeth ac adnoddau
Byddwn yn parhau i ychwanegu adnoddau defnyddiol i'n gwe-dudalen, gan gynnwys mwy o wybodaeth am ein Siwrnai Ynni Cymunedol, a lansiwyd yn ddiweddar.



Ymgysylltu â'r diwydiant a gwybodaeth

Arwain agweddau
Byddwn yn noddi, yn mynychu ac yn cyflwyno sesiynau arwain agweddau yn nigwyddiadau'r diwydiant, gan gynnwys cynadleddau blynyddol Ynni Cymunedol Cymru, Lloegr a'r Alban.

Eirioli dros ynni cymunedol
Gweithio gydag Ofgem, DESNZ a GB Energy drwy weithgorau i ddylanwadu ar newid positif a'i alluogi ar gyfer cymunedau o ran rheoleiddio, marchnadoedd a gweithredu'r Cynllun Ynni Lleol.

Cyflwr y sector
Byddwn yn parhau â'n hymwneud â'r ymchwil i Gyflwr y Sector ac yn gweithio gyda rhanddeiliaid a gwneuthurwyr polisi i sicrhau ein bod yn grymuso cymunedau ac yn cyflwyno rhaglenni polisi effeithiol.



Ymchwil ac allgymorth

Cymorth parhaus i raglenni mentora
Byddwn yn parhau ein hymwneud â'r Rhwydwaith Dysgu Ynni (ELN) lle rydyn ni'n darparu cyllid ar gyfer chwe mentor sy'n gweithio gyda chymunedau ac yn cefnogi'r broses o lansio neu dyfu eu prosiectau ynni.

Up the Energy
Byddwn yn parhau i roi cymorth drwy noddi'r ymgyrch Up the Energy. Ymgyrch yw hon sy'n digwydd ar draws y DU o dan arweiniad Ynni Cymunedol Lloegr a'i bartneriaid, gyda'r bwriad o ddatgloi buddion ynni cymunedol a chynnwys cymunedau wrth gyflawni'r genhadaeth Ynni Glân.

Digwyddiadau ar draws timau
Byddwn yn cydweithio gyda thimau mewnol eraill SP Energy Networks (Cysylltiadau, Hyblygrwydd, Optimeiddio Strategol) a mynd i ddigwyddiadau ein gilydd er mwyn cynnig mwy o werth i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid.



Adborth a gwelliant parhaus

Gweithredu ar adborth arolygon rhanddeiliaid
Rydyn ni wedi siapio'r strategaeth hon yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid, a byddwn yn parhau i ymateb i anghenion ein rhanddeiliaid drwy ymgysylltu'n rheolaidd.

Paratoi ar gyfer ED3
Byddwn yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau ynni cymunedol fel rhan o'n gwaith cynllunio ar ED3, gan gasglu tystiolaeth ar gysylltiadau, mynediad at wybodaeth a'r cymorth ehangach sydd ei angen i alluogi prosiectau i symud ymlaen.

Uwchsgilio mewnol ar ynni cymunedol
Rydyn ni wedi ymrwymo i uwchsgilio mewnol ar draws ein timau. Byddwn yn cynnal digwyddiadau a sesiynau arbenigol, ac yn datblygu adnoddau ar gyfer timau eraill, er mwyn iddyn nhw allu cefnogi cymunedau yn well ym mhob cam o siwrnai eu prosiect ynni. Byddwn hefyd yn ceisio ehangu'r tîm Ynni Cymunedol er mwyn cael mwy o gymorth pwrpasol un-i-un.



Astudiaethau achos

Cydweithfa Solar Caeredin (SPD)

Sefydliad ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yw Cydweithfa Solar Gymunedol Caeredin (ECSC) sy'n datblygu, yn gweithredu ac yn berchen ar osodiadau solar ffotofoltäig (PV) ar draws Caeredin. Mae'r gydweithfa wedi adeiladu portffolio o 30 o osodiadau solar gyda chapasiti cynhyrchu o tua 2.1 MW, sydd wedi'u lleoli'n bennaf yn ysgolion, canolfannau cymunedol a chanolfannau hamdden Cyngor Dinas Caeredin.

Mae'r sefydliad yn cyfuno buddsoddiad lleol, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a chyllid budd cymunedol, gan greu model sy'n cynnig gwerth amgylcheddol a chymdeithasol.



Effaith gymunedol
Y tu hwnt i gynhyrchu ynni glân, mae aelodau'r gydweithfa'n derbyn llog ar eu buddsoddiad cychwynnol (amcangyfrifir ei fod tua 4-5% y flwyddyn). Yna, mae ECSC yn cyfeirio'r elw sydd dros ben at raglenni budd cymunedol sy'n cefnogi:

- Prosiectau cynaliadwyedd.
- Mentrau ynni adnewyddadwy.
- Gweithgareddau gwella'r amgylchedd lleol

Ein rôl
Mae SP Energy Networks yn gweithio mewn partneriaeth ag ECSC i lywio heriau'r broses o gysylltu â'r grid, yn enwedig mewn lleoliadau cyfyng yng nghanol y ddinas.

Gwersi allweddol ar gyfer darpar gydweithfeydd ynni
Gall sefydliadau sy'n ystyried rhaglenni ynni cymunedol ddefnyddio nifer o wersi o'r model yng Nghaeredin:

- Gall perchnogaeth gymunedol gyflymu cefnogaeth y cyhoedd i brosiectau ynni adnewyddadwy.
- Mae ystadau'r sector cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer defnyddio ynni solar ar raddfa fawr.
- Gall cynigion cyfranddaliadau cymunedol arallgyfeirio ffynonellau cyllid a lleihau'r ddibyniaeth ar grantiau.
- Gellir strwythuro prosiectau ynni adnewyddadwy i roi manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol ar yr un pryd.
- Mae ail-fuddsoddi elw mewn blaenoriaethau lleol yn helpu i gynnal cefnogaeth rhanddeiliaid ac yn cryfhau'r effaith hirdymor.

Ashton Hayes (SPM)

Mae Ashton Hayes Going Carbon Neutral yn fenter ddatgarboneiddio gymunedol ym mhentref gwledig Ashton Hayes yn Swydd Gaer, cymuned o tua 1,000 o drigolion. Wedi'i sefydlu yn 2006, gosododd y prosiect nod uchelgeisiol o ddod y pentref carbon niwtral cyntaf yn Lloegr drwy weithredu lleol, newid ymddygiad a seilwaith ynni sy'n eiddo i'r gymuned.

Dros bron i ddau ddegawd, mae'r fenter wedi datblygu o ymgyrch ymwybyddiaeth ar lawr gwlad i fodel cydnabyddedig ar gyfer gweithredu hinsawdd cymunedol, yn ymgorffori cynhyrchu ynni adnewyddadwy, mesurau effeithlonrwydd ynni a pherchnogaeth gymunedol.

Adeiladu cyfoeth cymunedol
Mae'r fenter wedi dangos sut gall perchnogaeth leol gadw gwerth economaidd o fewn cymuned. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Creu cwmni ynni y mae'r gymuned yn berchen arno.
- Buddsoddiad cymunedol mewn seilwaith lleol.
- Ail-fuddsoddi refeniw ynni i asedau a gweithgareddau'r pentref.
- Cefnogaeth i gyfleusterau lleol gan gynnwys yr ysgol, y cae chwarae a'r dafarn y mae'r gymuned yn berchen arni.

Ein rôl
Cynigiodd SP Energy Networks gymorth cychwynnol ar sut i wireddu eu huchelgais, ac yna rhoddwyd cymorth gyda chysylltiadau â'r grid, gan gynnwys uwchraddio newidydd lleol.

Yr hyn a ddysgwyd
Mae Ashton Hayes yn dangos y gall gweithredu dan arweiniad y gymuned fod yn rym pwerus dros ddatgarboneiddio. Drwy gyfuno newid ymddygiad, perchnogaeth leol a buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy, mae'r pentref wedi creu model y gellir ei efelychu sy'n sicrhau manteision amgylcheddol tra'n cryfhau gwydnwch cymunedol a chreu cyfoeth lleol.





Astudiaethau achos parhad

Ynni Ogwen (SPM)

Menter ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yw Ynni Ogwen sydd wedi'i lleoli yn Nyffryn Ogwen, Gwynedd, Gogledd Cymru. Wrth wraidd y prosiect mae Hydro Ogwen, cynllun trydan dŵr a ddatblygwyd i fanteisio ar bŵer Afon Ogwen ac i gynhyrchu trydan adnewyddadwy er budd cymunedau lleol. Sefydlwyd y prosiect yn wreiddiol gan Bartneriaeth Ogwen, ac wedi hynny, cafodd ei ddatblygu a'i weithredu gan Ynni Ogwen Cyf, Cymdeithas Budd Cymunedol a sefydlwyd i adeiladu, i reoli ac i fod yn berchen ar y cynllun hydro.


Creu cyfoeth cymunedol
Mae'r prosiect yn ffordd o gynhyrchu ynni sy'n creu cyfoeth cymunedol, lle mae refeniw ynni adnewyddadwy yn cael ei gadw'n lleol ac yn cael ei ailfuddsoddi mewn mentrau amgylcheddol a chymunedol ehangach ar draws y dyffryn.



Ein rôl
Fe wnaeth SP Energy Networks eu cefnogi drwy'r cam datblygu a'r broses o gysylltu â'r grid.

Gwybodaeth i grwpiau ynni cymunedol
Mae profiad Ynni Ogwen yn dangos sawl gwers bwysig ar gyfer datlbygu ynni cymunedol:

- Gall perchnogaeth gymunedol wneud y mwyaf o'r gwerth lleol sy'n cael ei greu gan asedau ynni adnewyddadwy.
- Gall prosiectau ynni adnewyddadwy ddarparu buddion amgylcheddol ac economaidd pan gaiff elw ei ail-fuddsoddi'n lleol.
- Gellir defnyddio adnoddau naturiol, fel afonydd, mewn ffordd strategol i gefnogi datgarboneiddio sy'n seiliedig ar leoedd a gwydnwch cymunedol.
- Mae Cymdeithasau Budd Cymunedol yn cynnig model llywodraethu effeithiol ar gyfer cyflawni gwerth cymdeithasol hirdymor.
- Gall seilwaith ynni adnewyddadwy fod yn sbardun i adfywio'r gymuned yn ehangach ac i wella'r amgylchedd.



Gwersi, adlewyrchu a chwestiynau sy'n dod i'r amlwg

Beth rydyn ni wedi'i ddysgu

Mae ynni cymunedol yn ffynnu pan gaiff ei gefnogi gan berthnasoedd hirdymor, dibynadwy ac nid rhai amhersonol. Mae cysylltiadau ymroddedig, sydd wedi'u henwi o fewn SP Energy Networks yn gwneud gwahaniaeth diriaethol i'r ffordd y mae grwpiau'n profi'r broses.

Mae dysgu wrth gymheiriaid a mentora yn perfformio'n well yn gyson na darparu gwybodaeth mewn un cyfeiriad yn unig. Mae grwpiau'n dysgu orau gan grwpiau eraill sydd wedi wynebu'r un heriau.

Mae hyblygrwydd ac ymatebolrwydd yr un mor bwysig â rhaglenni wedi'u strwythuro. Mae bod yn barod i addasu ein cymorth wrth i brosiectau esblygu yn meithrin ffydd ac yn lleihau tensiwn mewn cymunedau ar adegau lle gwneir penderfyniadau pwysig.

Cwestiynau rydyn ni'n eu harchwilio

Wrth i ni ddatblygu ein ffordd o weithio, rydyn ni'n awyddus i deall y materion canlynol yn well. Wrth i'r ddealltwriaeth ddyfnhau, gallwn deilwra ein gweithgareddau'n fwy effeithiol:

1. Sut gall prosiectau ynni cymunedol gyfrannu fwyaf effeithiol at wydnwch y rhwydwaith, yn enwedig ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed yn ystod tywydd eithafol?
2. Beth yw'r model mwyaf effeithiol ar gyfer cynnig cymorth technegol cyn-ymgeisio i grwpiau cymunedol sydd yn eu camau cynnar?
3. Sut gall offer a data mewnol SP Energy Networks – fel mapio GIS a fframweithiau gwerth cymdeithasol – gael eu gwneud yn fwy hygyrch i sefydliadau ynni cymunedol eu hunain?
4. Pa gyfleoedd sy'n bodoli i sicrhau bod canlyniadau ynni cymunedol yn cyd-fynd ag integreiddio SP Electricity North West, gan greu cydlyniad ar draws ardal ehangach y drwydded?

Adnoddau Ynni Cymunedol

Dyma rai o'r prif sefydliadau ac adnoddau cenedlaethol, datganoledig a rhanbarthol sydd ar gael i grwpiau ynni cymunedol ledled Prydain.

Prydain gyfan a Chenedlaethol

GB Energy
Cwmni ynni ym mherchnogaeth y cyhoedd sy'n cyflymu ynni glân. Cyhoeddwyr y Cynllun Pŵer Lleol, gyda chymorth £1 biliwn o gyllid i ddatgloi prosiectau lleol a chymunedol.

Ynni Cymunedol Lloegr
Corff cenedlaethol sy'n cynrychioli ac yn cefnogi sefydliadau ynni cymunedol yn Lloegr.

Ynni Cymunedol yr Alban
Cefnogi cymunedau'r Alban i ddatblygu ac i berchen ar brosiectau ynni adnewyddadwy.

Ynni Cymunedol Cymru
Cefnogi ynni sy'n eiddo i'r gymuned ledled Cymru.

Community Energy Go
Cysylltu grwpiau cymunedol â chyngor arbenigol a chymorth ymarferol am ddim i wireddu eu prosiectau ynni cymunedol.

Rhwydwaith Dysgu Ynni
Mentora a dysgu gan gymheiriaid ar gyfer datblygu grwpiau ynni cymunedol.

Ofgem
Am wybodaeth ar reoleiddio DNO a phroses cynllunio busnes RIIO-ED3.

Adnoddau Rhanbarthol

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Darparu cyngor a chymorth ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy.



Canolfannau Sero Net Lleol (Lloegr)
Mae gan bob rhanbarth yn Lloegr Ganolfan Sero Net Leol, lle gall cymunedau gael cymorth gan awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau Sero Net.

Canolfan Sero Net Gogledd Orllewin Lloegr
Cymorth Sero Net Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Orllewin Lloegr.

Local Energy Scotland/CARES
Yn rheoli Cynllun Ynni Cymunedol ac Adnewyddadwy (CARES) Llywodraeth yr Alban, gan gefnogi cymunedau i ymgysylltu â'r trawsnewidiad ynni ac elwa ohono.

Canolfannau Gweithredu ar Hinsawdd (Yr Alban)
Canolfannau rhanbarthol sy'n cefnogi gweithredu ar hinsawdd dan arweiniad y gymuned ar draws yr Alban.

Home Energy Scotland/ Hwb Sero Carbon Cymru
Rhaglenni cymorth ynni datganoledig ar gyfer yr Alban a Chymru.

Sut mae ein timau'n cydweithio ar gyfer eich cymuned chi



Cysylltwch â ni

Mae ein tîm Ynni Cymunedol yn gweithio'n agos gyda sawl tîm mewnol ar draws y busnes. Gall gwybod pa dîm i gysylltu ag ef wneud gwahaniaeth go iawn i ba mor gyflym ac effeithiol y caiff eich ymholiad ei ddatrys. Defnyddiwch y canllaw isod i ddod o hyd i'r man cychwyn cywir.

Tîm Ynni Cymunedol

Eich prif bwynt cyswllt ar gyfer cwestiynau, arweiniad, cymorth gyda phrosiectau a'ch cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill ym maes ynni cymunedol. Cysylltwch â ni drwy ein blwch post. pwrpasol ar gyfer pob ymholiad ynni cymunedol.

Cysylltiadau

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â chysylltu prosiectau sy'n bodoli'n barod â'r rhwydwaith trydan, capasiti'r grid, cynigion cysylltu a'r broses ymgeisio.

Hyblygrwydd

Ar gyfer cwestiynau penodol am wasanaethau hyblygrwydd, ymateb ymhlith defnyddwyr a sut gallai asedau cymunedol fod yn rhan o farchnadoedd hyblygrwydd lleol.

Bregusrwydd defnyddwyr

Ar gyfer prosiectau neu bartneriaethau sy'n canolbwyntio ar gefnogi cwsmeriaid bregus, tlodi tanwydd, mannau cynnes a gwydnwch cymunedol.

Optimeiddio Strategol/DSO

Am ymholiadau ynglŷn â chynllunio rhwydweithiau, cynllunio ynni yn yr ardal leol a sut mae prosiectau cymunedol yn rhyngweithio â strategaeth ehangach y rhwydwaith.

Cynaliadwyedd

Ar gyfer cwestiynau sy'n ymwneud ag ymrwymiadau cynaliadwyedd cyffredinol SP Energy Networks, adrodd ar ESG a mesur gwerth cymdeithasol ar draws y busnes.

Dolenni, adnoddau a sut i gofrestru

Canllaw cyflym i adnoddau ynni cymunedol SP Energy Networks, adroddiadau allanol a sut i gysylltu neu gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Adroddiadau a mewnwelediadau

Mynediad at adroddiadau Cyflwr y Sector, ein Asesiad Cyflym o Dystiolaeth, adroddiadau mewnwelediad ar ynni cymunedol a chyhoeddiadau ymchwil eraill drwy ein gwe-dudalen Ynni Cymunedol.

Dogfen Ganllaw

Lawrlwythwch ganllawiau ymarferol ar gysylltiadau, ynni PV solar, hyblygrwydd a'r siwrnai ynni cymunedol – mae'r cyfan ar gael ar ein gwefan Ynni Cymunedol.

Gweminarau a gweithdai

Mynediad at recordiadau o sesiynau holi ac ateb, gweithdai a sesiynau cynadleddau blaenorol. Cofrestrwch eich diddordeb mewn digwyddiadau sydd ar y gweill drwy ein blwch post Ynni Cymunedol.

Astudiaethau achos

Archwiliwch enghreifftiau go iawn o brosiectau ynni cymunedol ar draws ardaloedd ein trwydded – yn cwmpasu ynni PV solar, storio batris, ynni gwynt, seilwaith cerbydau trydan a mwy.

Cofrestru fel Rhanddeiliad

Gall grwpiau ynni cymunedol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ehangach gofrestru'n uniongyrchol gyda'n tîm Ynni Cymunedol i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf, gwahoddiadau ac adnoddau. Cysylltwch â ni drwy ein blwch post pwrpasol.

Rhannwch eich adborth

Rydyn ni wastad yn ceisio gwella ein cymorth. Os oes gennych awgrymiadau, cwestiynau neu adborth ar unrhyw agwedd ar ein gwaith ynni cymunedol, cysylltwch â ni drwy ein blwch post Ynni Cymunedol.

Geirfa

Canllaw cynhwysfawr i'r eirfa a ddefnyddir drwy gydol y ddogfen strategaeth hon ac ar draws y sector ynni cymunedol.

Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi
Methodoleg ar gyfer mesur ac ystyried y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a grëir gan weithgaredd, rhaglen neu sefydliad.

Adnoddau hunanwasanaeth
Adnoddau ar-lein sy'n gadael i ddefnyddwyr wneud pethau eu hunain.

Adroddiad Cyflwr y Sector
Adroddiad sy'n crynhoi statws a chynnydd prosiectau ynni cymunedol.

Allyriadau carbon
Rhyddhau carbon deuocsid i'r atmosffer, yn aml drwy losgi tanwyddau ffosil.

Arloesedd
Syniad, dull neu ddyfais newydd.

Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA)
Methodoleg ymchwil sydd wedi'i strwythuro a ddefnyddir i gyfuno tystiolaeth gyfredol yn gyflym ac yn systematig. Comisiynodd CSPEN REA drwy Brifysgol Strathclyde am yr hyn sy'n rhwystro ac yn ysgogi Ynni Cymunedol.

Capasiti
Y swm mwyaf y gall rhywbeth ei gynnwys neu ei gynhyrchu (e.e. ynni).

CARES – Cynllun Ynni Cymunedol ac Adnewyddadwy
Rhaglen Llywodraeth yr Alban, a reolir gan Ynni Lleol yr Alban, sy'n darparu cyllid a chymorth i gymunedau sy'n ymwneud â'r trawsnewidiad ynni.

Cilowat (kW)
Uned o bŵer sy'n gyfwerth â mil wat.

CO_2
Carbon deuocsid: nwy tŷ gwydr sy'n cael ei ryddhau wrth losgi tanwyddau ffosil.

Cwmni Buddiant Cymunedol
Cwmni a sefydlwyd er budd y gymuned, nid perchnogion preifat.

Cydbwyso
Cadw cyflenwad a galw am drydan yn gytbwys ar y grid.

Cymdeithas Budd Cymunedol
Math o sefydliad sy'n gweithredu er budd y gymuned.

Cymdeithas Gydweithredol
Busnes sy'n eiddo i'w aelodau ac yn cael ei redeg ganddyn nhw.

Cysylltiadau ansefydlog
Cysylltiadau trydan y gellir tarfu arnyn nhw neu eu cyfyngu ar adegau.

Dan arweiniad y gymuned
Wedi'i redeg neu ei arwain gan drigolion lleol.

Datganoledig
Wedi'i wasgaru, heb fod dan reolaeth un awdurdod canolog.

Datgarboneiddio
Y broses o leihau allyriadau carbon o ynni a diwydiant.

Dichonolrwydd
Pa mor bosib neu ymarferol yw rhywbeth.

DNO – Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu
Cwmni sydd â thrwydded i ddosbarthu trydan ar draws ardal ddaearyddol benodol. Mae SPEN yn gweithredu fel DNO ar draws Cymru, yr Alban a rhannau o Loegr.

Dosbarthiad
Cyflenwi trydan o'r grid i gartrefi a busnesau.

DSO – Gweithredwr y System Ddosbarthu
Cwmni (fel arfer DNO) sy'n rheoli rhwydwaith cymhleth a datganoledig, lle mae cartrefi a busnesau yn defnyddio ac yn cynhyrchu trydan.

ED2/ED3 – Rheoli Prisiau Dosbarthu Trydan
Cyfnodau rheoleiddiol lle mae DNO yn nodi ei safonau buddsoddi a gwasanaeth ar gyfer cyfnod o bum mlynedd. ED2 (cyfredol): 2023–2028. ED3 (ar y gweill): 2028–2033.

ELN – Rhwydwaith Dysgu Ynni
Rhaglen fentora a dysgu gan gymheiriaid sy'n cael ei chynnal gan Ashden, i gefnogi grwpiau ynni cymunedol i ddatblygu ac ehangu eu prosiectau ledled Prydain.

Gigawat (GW)
Uned o bŵer sy'n gyfwerth â biliwn wat.

GIS
System Wybodaeth Ddaearyddol: adnodd ar gyfer mapio a dadansoddi lleoliadau.

Grid
Y rhwydwaith sy'n dosbarthu trydan o gynhyrchwyr i ddefnyddwyr.

Gwelliannau dan arweiniad rhanddeiliaid
Newidiadau neu gamau gweithredu sy'n seiliedig ar adborth pobl neu grwpiau sydd â diddordeb yn y prosiect.

GWh
Gigawat yr awr: uned o ynni sy'n gyfwerth â biliwn o oriau wat.

Gwydnwch
Y gallu i adfer ar ôl anawsterau neu addasu i newid.

Hyblygrwydd
Y gallu i newid y defnydd neu'r cyflenwad ynni er mwyn helpu'r grid.

Megawat (MW)
Uned o bŵer sy'n gyfwerth â miliwn wat.

Meithrin gallu
Helpu pobl neu grwpiau i fagu sgiliau ac adnoddau i wneud rhywbeth yn well.

Monitro'r rhwydwaith
Monitro a mesur perfformiad y grid trydan.

Ofgem
Y Swyddfa Marchnadoedd Nwy a Thrydan: rheoleiddiwr ynni'r DU.

Optimeiddio Strategol
Cynllunio i wneud y defnydd gorau o adnoddau ar gyfer nodau hirdymor.

Pontio Teg
Sicrhau bod y broses o bontio i economi carbon isel yn deg i bawb.

Rhanddeiliad
Person neu grŵp sydd â diddordeb mewn prosiect neu benderfyniad.

Seilwaith
Y systemau a'r gwasanaethau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer cymdeithas neu sefydliad.

Sero Net
Targed i gydbwyso allyriadau nwyon tŷ gwydr â'u tynnu o'r atmosffer.

SPD
SP Distribution: rhan o SPEN, sy'n cwmpasu Canolbarth a De'r Alban.

SPEN
SP Energy Networks: y cwmni sy'n dosbarthu trydan mewn rhanbarthau penodol o'r DU.

SPM
SP Manweb: rhan o SPEN, sy'n cwmpasu Gogledd Cymru, Glannau Mersi, Swydd Gaer.

Ymgysylltiad
Ymwneud â rhywbeth neu gymryd rhan ynddo.

Ynni Adnewyddadwy
Ynni o ffynonellau sy'n cael eu hadnewyddu'n naturiol, fel gwynt neu solar.

Atodiad 1 – Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r llynedd

ae ein strategaeth ar gyfer 2025 yn amlinellu chwe ymrwymiad craidd ar draws ymgysylltu â grwpiau, gwybodaeth, cydweithio mewnol, cyrff ynni cymunedol, gweithdai a'n gwe-dudalen bwrpasol. Dyma grynodeb o'r cynnydd a wnaed.

Ymgysylltu a Gwybodaeth

Ymgysylltu â'r Grŵp Ynni Cymunedol

Bellach mae gennym Reolwyr Ynni Cymunedol pwrpasol sy'n cwmpasu ardaloedd trwydded SPD a SPM, gan gynnig pwynt cyswllt canolog i grwpiau sy'n arwain timau a phrosesau ar draws y busnes.

Gwybodaeth ac Adnoddau

Mae ein gwe-dudalen bellach yn dod â'r Siwrnai Ynni Cymunedol, canllawiau, astudiaethau achos, fideos a gwybodaeth am gysylltiadau at ei gilydd. Mae dogfennau ategol pellach yn cael eu hychwanegu drwy'r amser.

Ymgysylltu mewnol

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda thimau Cysylltiadau, Hyblygrwydd, Bregusrwydd, Arloesi ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i wella cysondeb y wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i sefydliadau ynni cymunedol.

Cyrff Ynni Cymunedol

Rydyn ni'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Ynni Cymunedol Cymru, Lloegr a'r Alban i rannu'r newyddion diweddaraf, trafod heriau'r sector a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio.

Gweithdai Ynni Cymunedol

Rydyn ni wedi cynnal gweithdai, sesiynau holi ac ateb, cynadleddau a sesiynau ymgysylltu i gefnogi'r broses o rannu gwybodaeth ac i roi mynediad i grwpiau cymunedol at arbenigedd perthnasol.

Gwe-dudalen Ynni Cymunedol

Mae'r gwaith o hyrwyddo ein Siwrnai, ein canllawiau a'n hastudiaethau achos wedi cynyddu drwy gyfryngau cymdeithasol, gweithgareddau ymgyrchu, cynadleddau a deunydd cyfathrebu i bartneriaid.



Atodiad 2 – Perfformiad yn erbyn ymrwymiadau'r llynedd

Ymchwil ac Allgymorth

Cyrff Ynni Cymunedol ac Ymchwil

Rydyn ni'n parhau i noddi adroddiad cenedlaethol 'Cyflwr y Sector' a'r adroddiadau rhanbarthol cysylltiedig. Rydyn ni yn y drydedd flwyddyn o nawdd pedair blynedd, gan wella ein dealltwriaeth o'r tirlun ynni cymunedol ar draws ardaloedd ein trwydded.

Astudiaethau Achos y Prosiect

Rydyn ni wedi cynyddu nifer yr astudiaethau achos a gasglwyd, gan gwmpasu technolegau, mathau o brosiectau a lleoliadau gwahanol ar draws ardaloedd ein trwydded. Nid yw'r gwaith mapio GIS wedi'i gwblhau'n llawn eto, a chaiff ei adolygu o fewn y strategaeth newydd.

Ymchwil y Sector

Rydyn ni'n parhau i weithio gyda sefydliadau'r sector a phartneriaid ymchwil i wella ein dealltwriaeth o'r rhwystrau, y cyfleoedd a'r anghenion cymorth sy'n effeithio ar ynni cymunedol.

Cynllun Ymgysylltu

Cyflwynwyd rhaglen wedi'i strwythuro ar draws ardal y ddwy drwydded drwy gynadleddau, nawdd, gweithgorau, clinigau, arolygon ac ymgysylltu uniongyrchol â sefydliadau cymunedol.

Ymgysylltu â Phobl Ifanc am Ynni Cymunedol

Nid yw hyn wedi datblygu fel rhaglen annibynnol fel y rhagwelwyd yn wreiddiol. Serch hynny, efallai y bydd ein cynnwys realiti rhithwir a'n deunydd sy'n canolbwyntio ar ysgolion yn rhoi cyfle i ail-lunio'r ymrwymiad hwn.

Digwyddiadau a Chyfathrebu

Rydyn ni'n parhau i ymgysylltu â sefydliadau ynni cymunedol fel rhan o'n cynllunio ar gyfer ED3, gan gasglu tystiolaeth ar gysylltiadau, mynediad at wybodaeth a'r gefnogaeth ehangach sydd ei hangen i alluogi prosiectau i symud ymlaen.

Adborth a Gwelliant Parhaus

Adborth

Caiff adborth rheolaidd ei gasglu drwy gyfarfodydd cyrff ynni cymunedol, gweithgorau, ymgysylltu uniongyrchol, digwyddiadau ac arolygon, gan helpu i lunio blaenoriaethau'r dyfodol a gwella'r gefnogaeth a ddarparwn.

Rhannu

Rydyn ni'n cymryd rhan yng Ngweithgor Ynni Cymunedol y DNO, rhannu'r hyn a ddysgwyd a gweithio tuag at fwy o gysondeb ar draws gweithredwyr rhwydwaith cyn ED3.

Dadansoddi Data

Rydyn ni'n gwella'r ffordd rydyn ni'n casglu ac yn asesu ymgysylltiad, adborth a gwybodaeth am y sector, er bod hyn yn parhau i fod yn faes y gellid ei gryfhau ymhellach o fewn y strategaeth newydd.

Dadansoddi Strategaeth

Mae ein Strategaeth Ynni Cymunedol a'n gweithgaredd cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n fewnol i sicrhau bod blaenoriaethau'n parhau i gyd-fynd ag anghenion rhanddeiliaid ac amcanion ehangach y busnes.

Paratoi ED3

Cynhaliwyd arolwg ar draws y sector i gasglu adborth gan grwpiau ynni cymunedol a rhanddeiliaid, gyda'r canfyddiadau'n llywio'n uniongyrchol y blaenoriaethau a nodir yn y strategaeth newydd hon.

Arolwg ar y Strategaeth

Rydyn ni'n parhau i noddi a mynychu cynadleddau ac ymgyrchoedd ynni cymunedol cenedlaethol a rhanbarthol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys Pythefnos Ynni Cymunedol.

SP Energy Networks
Strategaeth Ynni Cymunedol

spenergynetworks.co.uk